







Mae hi'n bwysig iawn i gydnabod bod **pob plentyn yn unigolyn** a fydd yn dilyn eu **siwrnai unigryw** eu hunain. Canllaw yw hwn, ac mae'r **dyddiadau i gyd yn frasmcan**.

Mae croeso i chi ofyn i'r Tîm Holtt "ble ydyn ni wedi cyrraedd?" neu "beth sy'n digwydd nesaf?" ar unrhyw adeg

Rhowch Sticer gyda Manylion y Claf yma

Nodiadau ychwanegol

Gwybodaeth am Arhosiadau Cleifion Mewnol: Bydd yr arhosiadau cleifion fel arfer yn Ysbyty Treforys. Gallwch ddisgwyl weld y llawfeddyg cyn ac ar ôl y llawdriniaeth. Bydd y therapydd iaith a lleferydd a'r nyrs hollt arbenigol yn ymweld â chi ar y ward hefyd.

MDT = Tîm Amlddisgyblaethol

CNS = Nyrs Holtt Arbenigol

SLT = Therapi Iaith a Lleferydd

Alfeolws / Alfeolaidd = yr asgwrn o gwmpas y dannedd

Llawdriniaeth Arall: Bydd rhai plant angen llawdriniaethau eraill yn ystod eu siwrnai claf. Gall y rhain gynnwys llawdriniaeth i wella lleferydd, i wella sut mae'r wefus neu'r trwyn yn edrych. Byddwn yn trafod yr opsiynau yma gyda chi os bydd yr angen yn codi

Impiadau Asgwrn (ABG) ac Osteotomia: Awgrymir impiad asgwrn afleolaidd ar gyfer y rhan fwyaf o blant gyda BCLP. Ar gyfer nifer llai o bobl, trafodir llawdriniaeth i gywiro safle'r gen/genau. Llawdriniaeth Orthognathig yw'r enw am hwn.

Asesiadau Clyw: Yn ychwaneg i'r asesiadau clyw a ddynodir uchod, efallai y cynhelir asesiadau pellach yn rheolaidd fel bo'n briodol drwy gydol plentynod.

Therapi Iaith a Lleferydd: Yn ychwaneg i'r asesiadau lleferydd a ddynodir uchod, efallai y cynhelir asesiadau pellach a/neu gellir cyfeirio eich plentyn at Therapi Iaith a Lleferydd ar unrhyw adeg.

Seicoleg: Gellir cysylltu Seicolegydd y Tîm Holtt ar unrhyw adeg arall yn ystod y siwrnai claf i drafod unrhyw bryderon.

Nyrs Holtt Arbenigol: Byddant yn cynorthwyo'r teulu drwy gyswllt rheolaidd yn y blynyddoedd cynnar.

Cydllynydd Holtt: Gellir eu cysylltu ar 01792 703810 (mae yna beiriant ateb ar gyfer galwadau y tu allan i oriau gwaith arferol)

Gwefan Canolfan Cymru ar gyfer Gwefus a Thafod Holtt: <https://sbuhb.nhs.wales/hospitals/a-z-hospital-services/cleft-team/>

dilynwch ni ar Trydar - <https://twitter.com/TimHolttCymru>